

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI
CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau
Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

Dyddiad Cyfarfod PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

21 Hydref, 2021

PWNC

Eitem 5: PENDERFYNIAD Y CABINET – 28-09-21 – EITEM 8 – YSGOL ABERSOCH

PENDERFYNIAD

Bod y pwyllgor craffu yn cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried ar y sail na chafwyd ymateb digonol i'r ail reswm dros alw i mewn, sef:-

“2.Nid yw'r Adroddiad yn cymryd i ystyriaeth ddyfodol Tai a Gwaith fydd yn dod i rym yn y Pentref .

(a) Mae Datblygiad Newydd o godi Gwesty Newydd fydd yn creu beth bynnag 40 o swyddi llawn amser yn yr ardal - mi fydd y Gweithwyr a'u Teulu angen adnoddau yn cynnwys Addysg i ein plant.

(b) Mae Llywodraeth Cymru, yr Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd a Chymdeithas Tai (sydd yn berchen tir yn y pentref) ar hyn o bryd yn edrych i godi mwy o dai - mae Llywodraeth Cymru wedi dweud fod grant ar gael i ddatblygu y tir yma i godi o bosib 15 o dai.

Mae'r Gymdeithas tai wedi cadarnhau fod cynlluniau wedi gwneud yn barod ar safle Bryn Garmon.

Nid yw'r adroddiad yn sôn dim am y cynllun newydd gan yr Adran Tai ac Eiddo a dim am y datblygiadau sydd yn mynd ymlaen yn y Pentref ac felly nid yw'r Adran Addysg wedi ymateb i ofynion Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol wrth beidio gwneud hyn.”

CANLYNIAD Y BLEIDLAIS

O blaid	8
Yn erbyn	6
Atal	1

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Datganodd y Cynghorydd Dewi Roberts fuddiant personol oherwydd ei fod yn llywodraethwr Ysgol Abersoch, ond oherwydd iddo gael ei benodi i'r rôl honno gan yr Awdurdod, nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.
